OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 992

## Rheoliadau Deddf Trwyddedu Sŵau 1981 (Diwygio) (Cymru) 2003

**Darpariaeth drosiannol i sŵau heb drwyddedau**

**4.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i sw yng Nghymru y mae'n ofynnol iddo, oherwydd y diwygiadau a wneir i'r Ddeddf gan Reoliadau 2002 a chan y Rheoliadau hyn, gael ei drwyddedu o dan y Ddeddf ond nad oedd hi'n ofynnol iddo gael ei drwyddedu felly yn union cyn 22 Ebrill 2003.

(2) Er gwaethaf unrhyw ddiwygiad o'r fath, caiff person a oedd, yn union cyn 22 Ebrill 2003, yn rhedeg sw y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo ar unrhyw dir neu mewn unrhyw adeiladau barhau i redeg y sw hwnnw ar y tir neu yn yr adeiladau hynny heb drwydded o dan y Ddeddf—

(a) yn ystod y cyfnod o 6 mis sy'n dechrau ar y dyddiad hwnnw; a

(b) os yn ystod y cyfnod hwnnw gwneir cais am drwydded, nes bod penderfyniad terfynol yn cael ei wneud ynglŷn â'r cais hwnnw, neu fod y cais yn cael ei dynnu yn ôl.

(3) Nid yw adran 16C o'r Ddeddf yn gymwys i sw y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddo tra caniateir i berson barhau i redeg y sw heb drwydded yn rhinwedd paragraff (2).

(4) Os caiff y drwydded ei rhoi, caiff ei rhoi am gyfnod o bedair blynedd sy'n dechrau ar y dyddiad y rhoddir y drwydded arno.